

# Gawn ni
# Sgwrs â Phlant dan 5

Cwrs ymarferol sy'n helpu rhieni a gofalwyr I ddysgu sut i ddatblygu a gwella Dealltwriaeth plant ifanc a'u gallu i siarad.

**Bydd y cwrs yn rhedeg am 7 wythnos:**
**Amser: 10:00 – 12:00 yp**

**Dydd Llun 05ed Gorffennaf 2021**
**Dydd Llun 12fed o Gorffennaf 2021**
**Dydd Llun 19eg o Gorffennaf 2021**
**Dydd Llun 06ed o Medi**
**Dydd Llun 13eg o Medi**
**Dydd Llun 20fed o Medi 2021**
**Dydd Llun 27ain o Medi 2021**

**Sylwer bod nifer cyfyngedig o lefydd ar gael.**
**I archebu lle, anfonwch e-bost at Samantha@Standnw.org**

Achredydir pob cwrs
Elklan drwy
OCN London.

# Gawn ni Sgwrs â Phlant dan 5

Bwriedir y cwrs ymarferol hwn ar gyfer rhieni a gofalwyr ond mae'n addas hefyd ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd cynnar. Fe'u hysgrifennwyd gan therapyddion lleferydd ac iaith a bydd y saith sesiwn dwy awr hyn yn eich galluogi i ddysgu sut i wella a datblygu dealltwriaeth eich plentyn a'i allu i siarad.

Mae llawlyfr y cwrs yn llawn strategaethau a gweithgareddau y gellir eu defnyddio gyda'ch plentyn yn y cartref ac yn yr amgylchedd cyn-ysgol. Bydd helpu eich plentyn yn awr i gyfathrebu'n hyderus yn golygu y bydd yn barod am yr holl brofiadau dysgu cyffrous y bydd yn eu cael pan fydd yn dechrau yn yr ysgol.

## Y NODAU YW

- Rhoi i chi syniadau ymarferol i helpu i ddatblygu a gwella gallu eich plentyn i wrando, deall a siarad.
- Dysgu pam mae rhai plant yn cael anhawster i ddeall beth sy'n cael ei ddweud wrthynt ac i siarad.
- Eich helpu i ddatblygu gallu eich plentyn i siarad er mwyn iddo/iddi fod yn barod ar gyfer yr ysgol.
- Rhannu syniadau â rhieni a gofalwyr eraill.

## TESTUNAU DAN SYLW

- Deall beth sy'n digwydd pan fyddwn yn siarad â'n gilydd.
- Gwella rhyngweithio rhwng plant ac oedolion.
- Datblygu chwarae sy'n arwain at siarad.
- Gwella gwrando a dealltwriaeth.
- Dysgu sut mae plant yn dysgu geiriau newydd a'u helpu i'w defnyddio mewn brawddegau.
- Dysgu sut i ofyn cwestiynau addas a rhannu llyfrau.
- Helpu plant y mae'n anodd deall eu lleferydd.

## BETH MAE'R ARBENIGWYR YN EI DDWEUD

'Mae iaith yn ddyflwydd oed yn rhagfynegi sgiliau darllen, mathemateg ac ysgrifennu pan fydd plant yn dechrau yn yr ysgol' (Adroddiad yr Adran Addysg 2011).

'Mae geirfa yn 5 oed yn rhagfynegi yn gryf iawn y cymwysterau a enillir yn oed gadael yr ysgol ac wedyn' (Feinstein a Duckworth, 2006).

## BETH MAE'R RHAI SY'N MYNYCHU YN EI DDWEUD

Mae'n wych! Nawr, dwi'n teimlo gymaint yn fwy hyderus wrth ddysgu fy merch i siarad. Buaswn i'n argyfmell i bob rhiant wneud y cwrs hwn. Os ydi ysgol eisiau i blant ddysgu, yna mae ar rieni angen gwybod sut i helpu ac mae'r cwrs hwn yn ein helpu ni rieni i baratoi ein plant.

*C.V. 2017*

Dwi wedi mwynhau'r cwrs hwn yn arw a dwi'n ei argymell i bob rhiant.

*N.K. 2017.*

## GWYBODAETH BELLACH

Mae'r cwrs yn ceisio bod yn ymarferol, rhyngweithiol a llawn hwyl! Gallai cwblhau'r cwrs hwn arwain at astudio'r materion dan sylw yn ddyfnach drwy fynychu cwrs, 'Cefnogi Lleferydd ac iaith Plant 0-3 oed neu 3-5 oed' – mae manylion y cwrs i gyd i'w gweld yn: www.elklan.co.uk

+44 (0)1208 841450